

At: Aelodau'r Cabinet

Dyddiad: 16 Tachwedd 2022

Rhif Union: 01824712568

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 22 TACHWEDD 2022** am **10.00** am yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN A THRWY GYNHADLEDD FIDEO.**

Yn gywir iawn

G Williams
Swyddog Monitro

AGENDA

RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN HON O'R CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Aelodau i ddatgan cysylltiad sy'n rhagfarnu a phersonol mewn unrhyw fusnes a nodwyd i'w hystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYG

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion bryg yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION (Tudalennau 7 - 16)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 18 Hydref 2022 (copi ynghlwm).

5 CYNLLUN CLUDIANT CYNALIADWY DRAFFT (Tudalennau 17 - 48)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Barry Mellor, Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant (copi ynghlwm) yn cyflwyno'r Cynllun Cludiant Cynaliadwy Drafft i gael barn y Cabinet cyn yr ymgysylltiad cyhoeddus fydd yn cael ei gynnal ar y Cynllun yn gynnar yn 2023.

6 CYTUNDEB CYFLAWNI DIWYGIEDIG Y CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD (Tudalennau 49 - 138)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Win Mullen-James, Aelod Arweiniol Datblygu Lleol a Chynllunio (copi ynghlwm) yn ceisio cefnogaeth y Cabinet ar y Cytundeb Cyflawni diwygiedig i fynd gerbron y Cyngor i'w gymeradwyo a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

7 DEDDF RHENTU CARTREFI (CYMRU) 2016 A DEFNYDDIO TENANTIAETH RAGARWEINIOL (Tudalennau 139 - 160)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Rhys Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau (copi ynghlwm) yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i roi'r gorau i ddefnyddio Tenantiaeth Ragarweiniol i denantiaid newydd y cyngor a rhoi gwybod i'r Cabinet am y cytundeb tenantiaeth newydd i denantiaid y cyngor.

8 POLISI GOSOD TAI NEWYDD YN LLWYN EIRIN, DINBYCH (Tudalennau 161 - 186)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Rhys Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau (copi ynghlwm) yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet at gyfer Polisi Gosod Lleol i ddyrannu cartrefi yn Llwyn Eirin, Dinbych.

9 DIWEDDARIAD HUNANASESIAD PERFFORMIAD, CHWARTER 2, 2022 I 2023 (Tudalennau 187 - 274)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm) ar berfformiad y Cyngor yn erbyn ei swyddogaethau ar ddiwedd chwarter 2, 2022 i 2023.

10 ADRODDIAD CYLLID (Tudalennau 275 - 290)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm) ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb.

11 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET (Tudalennau 291 - 294)

Derbyn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet sydd ynghlwm a nodi'r cynnwys.

12 CYNLLUNIAU AMDDIFFYN YR ARFORDIR CANOL Y RHYL A CHANOL PRESTATYN - PAPUR DILYNOL (Tudalennau 295 - 370)

Ystyried adroddiad diweddarau (sy'n cynnwys dau atodiad cyfrinachol) gan y Cynghorydd Barry Mellor, Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant ynghylch dau gynllun amddiffyn yr arfordir posib ar gyfer Canol y Rhyl a Chanol Prestatyn a cheisio cymeradwyaeth y Cabinet i gyflwyno'r prosiect i'r Cyngor gydag argymhelliad i ariannu cyfnod adeiladu'r ddau gynllun.

RHAN 2 - MATERION CYFRINACHOL

GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod tra bydd yr eitem ganlynol yn cael ei thrafod oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu fel y'i diffinnir ym mharagraff 14, Rhan 4, Atodlen 12A y Ddeddf.

13 PROSIECT CEFNOGI LLETY BRYD DROS DRO (ATAL DIGARTREFEDD)
(Tudalennau 371 - 424)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorydd Rhys Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau (copi ynghlwm) yn cynnwys canlyniad yr ymarfer tendro ar gyfer y Prosiect Cefnogi Llety Bryd Dros Dro newydd a cheisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddyfarnu'r contract i'r darparwr gwasanaeth penodol a argymhellir yn yr adroddiad.

MEMBERSHIP

Y Cynghorwyr

**Gwyneth Ellis
Gill German
Elen Heaton
Julie Matthews
Jason McLellan**

**Barry Mellor
Win Mullen-James
Rhys Thomas
Emrys Wynne**

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned